# Poisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2025-2026

Ysgol Treganna

## Nod

Nod y polisi hwn yw hyrwyddo: • cydraddoldeb a chysylltiadau da lle mae amrywiaeth disgyblion, staff, rhieni a'r gymuned ehangach yn cael ei gynnwys, ei barchu a'i werthfawrogi

• cyfleoedd cyfartal i bawb, a chael gwared ar aflonyddu anghyfreithlon a gwahaniaethu ar sail hil, anabledd, ethnigrwydd, iaith, crefydd / cred, rhyw, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd / mamolaeth, statws priodas / partneriaeth sifil neu gyfeiriadedd rhywiol.

### Darparu a Chyfathrebu'r Polisi Cydraddoldeb

Mae Polisi Cydraddoldeb Treganna yn berthnasol i bob un o randdeiliaid yr ysgol, gan gynnwys aelodau'r ysgol sy'n gweithio'n llawn amser a rhan-amser; sy'n rhannu swydd, parhaol neu dros dro. Trafodir y polisi hwn gyda phob un ohonynt ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Mae hyn yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

### Datganiad ar Gydraddoldeb

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i weithio tuag at Gydraddoldeb, beth bynnag fo hil, oedran, rhyw, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, iaith neu anabledd unigolion, ac at greu diwylliant cynhwysol lle mae gan bob unigolyn, waeth beth fo'i allu neu gefndir, cyfle i gymryd rhan ac fe'i gwerthfawrogir fel aelod o gymuned yr ysgol. Rydym felly'n hyrwyddo ymagweddau cadarnhaol tuag at wahaniaethu ac yn meithrin parch tuag at bobl o bob cefndir diwylliannol.

Mae ffyrdd ystrydebol o feddwl yn tyfu o anwybodaeth a gallant gyfyngu ar uchelgeisiau pobl a gostwng eu hunan-werth. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi ac yn annog pobl o bob rhan o'r gymuned leol i gymryd rhan, a'i nod yw cynnig delweddau cadarnhaol sy'n herio stereoteipiau.

Mae'r ysgol yn gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ar sail hil, oedran, crefydd neu gred, ffydd, tueddfryd rhywiol, iaith neu anabledd. Ni fydd iaith neu ymddygiad sy'n hiliol, yn homoffobig neu a allai fod yn niweidiol i unrhyw grŵp yn cael ei oddef a bydd yn cael ei herio. Mae'r ysgol yn cymryd ei chyfrifoldeb o ddifrif i fonitro ac adrodd am ddigwyddiadau a orfodir gan gasineb, ac mae'n defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio'r strategaethau a fydd yn goresgyn yr agwedd ystrydebol yma. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon gyda'r AALl i helpu i lywio gweithrediadau i drechu troseddau casineb ar draws y Ddinas.

Rydym yn cydnabod ac yn dathlu'r ffaith bod pobl sydd â phrofiadau a chefndiroedd bywyd amrywiol yn cael eu cynnwys yng nghymdeithas Cymru a Phrydain. Mae'n bwysig bod pob disgybl yn barod i fyw mewn cymdeithas o'r fath.

## Cyfrifoldebau

Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am:

• sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth Cydraddoldeb, a sicrhau bod y Polisi Cydraddoldeb a'i weithdrefnau yn cael eu dilyn.

Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am:

• y Polisi Cydraddoldeb, ynghyd â pholisïau eraill yr ysgol, a sicrhau eu bod yn hygyrch i bob un o randdeiliaid yr ysgol,

• sicrhau bod y polisi a'i weithdrefnau yn cael eu dilyn,

• cyflwyno gwybodaeth yn rheolaidd i staff a llywodraethwyr ynghylch sut mae'r polisi'n gweithio, a darparu hyfforddiant os oes angen,
• sicrhau bod yr holl staff yn deall eu cyfrifoldebau ac yn cael hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau,
• cymryd camau priodol mewn achosion o aflonyddu a gwahaniaethu.

Mae'r holl staff yn gyfrifol am:

• delio â digwyddiadau ac achosion eraill o aflonyddu neu fwlio,

• gallu adnabod a delio â rhagfarn ac ystrydebu,

• hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda rhwng yr holl grwpiau,

• deall y deddfau diweddaraf ar wahaniaethu a manteisio ar gyfleoedd i dderbyn hyfforddiant.

## Monitro ac Adolygu

ByddyCynllunGweithredu'n cael ei adolygu'n flynyddol gyda'r polisi'n cael ei fonitro'n flynyddol gan y Corff Llywodraethol.

Ysgrifennwyd y polisi hwn gyda chymorth ac arweiniad swyddogion yr ALl.

## Cyfathrebu ac adrodd:

Mae'r Polisi Cydraddoldeb a'r Cynllun Gweithredu ar gael i holl randdeiliaid yr ysgol yn yr ysgol trwy amrywiol gyfryngau:

Trafodir unrhyw wybodaeth briodol sy'n berthnasol i'r polisi hwn mewn cyfarfodydd pontio a gynhelir rhwng Treganna ac ysgolion bwydo eraill ar gyfer Ysgol Plasmawr.

Fe'u trafodir hefyd fel rhan o weithdrefnau Rheoli Perfformiad Treganna

Llofnodion

Pennaeth  Catrin Evans

Cadeirydd y Llywodraethwyr Manon George

Dyddiad Cyhoeddi 5.10.24

Dyddiad Adolygu 12.10.25